# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 31AIN MAWRTH, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

# PWYLLGOR CYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## AELODAETH

## Cyngor Gwynedd

**Cynghorwyr:**

Elfed Wyn ap Elwyn
Louise Hughes
Elin Hywel
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Gwilym Jones
Dewi Owen
Gwynfor Owen
Richard Glyn Roberts
Sedd wag – Plaid Cymru

Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd

**Cyngor Sir Ceredigion**
Sedd wag

**Cyngor Sir Powys**
Cynghorydd J M Williams

**Aelod Eraill:**
Aled Williams Ysgol Ardudwy
Aled Jones-Griffith Coleg Meirion Dwyfor – Grwp Llandrillo Menai
Ann Elias Cyngor Sir Ceredigion
Chris Wilson Cyngor Sir Ceredigion
Claire Britton Rheilffordd Ffestiniog
Claire Williams Partneriaeth Rheilffordd Cambrian
Cynghorydd Meryl Roberts Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cynghorydd Alun Wyn Evans Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru
Sedd wag - Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru
Cynghorydd Trevor Roberts Pwyllgor Rheilffordd Shrewsbury/Aberystwyth
David Crunkhorn Trenau Arriva Cymru
David Thorp Ysgol Uwchradd Tywyn
Delwyn Evans Grwp Mynediad Meirionnydd
Gail Jones Trafnidiaeth Cymru
Arolygydd Karl Anderson Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Joyce Watson Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru
Liz Saville Roberts Aelod Seneddol Llyw Pryd - Dwyfor Meirionnydd
Mabon ap Gwynfor Aelod Senedd Dwyfor Meirionnydd
Cefin Campbell Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru
Roger Goodhew Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth
Sara Crombie Network Rail
Sedd wag Rheilffordd Talyllyn

# RHAGLEN

**1. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. <u>DATGAN BUDDIANT PERSONOL</u>**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. <u>MATERION BRYS</u>**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. <u>COFNODION</u>** 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2022 fel rhai cywir

**5. <u>DERBYN DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU</u>**

- Network Rail
- Trafnidiaeth Cymru
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**6. <u>CWESTIYNAU FFURFIOL</u>** 12 - 15

I dderbyn ymateb i gwestiynau ffurfiol a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf:

- Cyngor Cymuned Llangylennin
- Cyngor Cymuned Llanbedr
- Cyngor Tref Criccieth
- R Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Amwythig-Aberystwyth)

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**18-11-2022**

**Presenoldeb:**

**Yn bresennol:**

Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Richard Glyn Roberts (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwilym Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Meryl Roberts, (Cynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
Llio Hughes (Rheolwr Swyddfa Plaid Cymru – Senedd Cymru)
Ann Elias (Cyngor Sir Ceredigion)
Cyng. Trevor Roberts (Rheilffordd Aberystwyth/Amwythig)

Sara Crombie (Network Rail)
Richard Griffiths (Network Rail)
Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru) - GJ

Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ERYL JONES-WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD DEWI OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**3. YMDDIHEURIADAU:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyng. Elin Hywel (Cyngor Gwynedd), Cyng. Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd - Cyngor Gwynedd), Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd), Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd), Claire Williams (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Stuart Williams (Rheilffordd Tal-y-llyn), Chris Wilson (Cyngor Sir Ceredigion) a David Thorp (Ysgol Uwchradd Tywyn)

Amlygodd y Cadeirydd bod y Cynghorodd Louise Hughes wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad buan iddi

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **MATERION BRYS**

Dim i’w nodi

6. **COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11eg Chwefror 2022 fel rhai cywir

7. **DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU**

**NETWORK RAIL**

Croesawyd Richard Griffiths (Pennaeth Cyfathrebu Network Rail ar gyfer Cymru a'r Gorllewin) a Sara Crombie (Rheolwr Cyfathrebu Network Rail) i’r cyfarfod

**Diweddariad ar uwchraddio traphont Abermaw**

Cyflwynwyd lluniau a ffeithiau allweddol ar waith a gwblhawyd ar y draphont hyd yma. Nodwyd bod y gwaith wedi bod yn heriol ac yn ffisegol anodd i’r gweithwyr oherwydd amodau gwaith yn ymwneud a’r tywydd a bod y bont hefyd mewn cyflwr llawer gwaeth nag a ystyriwyd ar y dechrau. Adroddwyd mai’r bwriad gwreiddiol oedd cau'r draphont am un cyfnod rhwng Medi a Rhagfyr 2022, ond i leihau'r effaith ar wasanaethau rheilffyrdd, y gymuned a'r economi leol penderfynwyd cau’r lein am ddau gyfnod byrrach fel bod modd ailagor y rheilffordd ar gyfer hanner tymor yr ysgol a chyfnod y Nadolig.

Caewyd y rheilffordd rhwng Machynlleth a Pwllheli am bum wythnos o nos Sul, 11 Medi tan ddydd Sadwrn, 15 Hydref gan ailagor am bedair wythnos i gynnwys hanner tymor. Yr ail gyfnod cau oedd o nos Sul, 13 Tachwedd gyda bwriad o ailagor dydd Sadwrn, 10 Rhagfyr ar gyfer cyfnod y Nadolig. Ategwyd nad oedd dyddiau gweithio ar y draphont yn ystod 2023 wedi eu cadarnhau.

**Diweddariad ar draphont Aberdyfi, Y Bwthyn a Leri**

Yn ogystal â'r gwaith yn Abermaw, adroddwyd bod gwaith atgyweirio hefyd yn cael ei wneud i Draphontydd Dyfi, Leri a’r Bwthyn. Adroddwyd bod cyflwr gwael i draphont Aberdyfi – angen adnewyddu’r strwythur yn llawn. Cyflwynwyd lluniau i arddangos cyflwr y pren a’r gwaith dur.

Ategwyd bod gwaith adnewyddu trac yn cael ei gwblhau yn Nhywyn, a bod Network Rail yn cymryd pob mantais posib o wneud gwaith cynnal a chadw tra bod y rheilffordd wedi cau. Nodwyd bod gwaith ar gyfer 2023 yn cael ei drefnu ar y cyd gyda Trafnidiaeth Cymru a'r Gwasanaeth Cludo Nwyddau.

Diolchwyd am y diweddariad. Nododd y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r buddsoddiad.

Sylwadau a materion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Bod y gwaith adnewyddu traciau yn Nhywyn yn dod yn ei flaen yn dda
- Bod problemau gyda thrafnidiaeth i'r ysgolion yn ystod y cyfnod cau wedi ei datrys
- Diolch i gydweithio da rhwng asiantaethau ar gael gosod pont newydd dros y rheilffordd yn Aberdyfi
- Da gweld arian yn cael ei fuddsoddi a gwaith yn cael ei gwblhau ar hyd y rheilffordd.
- Diolch i'r swyddogion lleol am eu gwaith o godi ymwybyddiaeth at ddiogelwch y rheilffordd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chroesfan rheilffordd Harlech ac a fu unrhyw ostyngiad mewn tresmasu ers yr ymgyrch a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn, nodwyd nad oedd asesiadau risg wedi ei wneud ar groesfannau penodol ond bod ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi ei wneud gyda'r cyhoedd ac mewn ysgolion. Nodwyd y byddai modd cyfeirio gwybodaeth am ddiogelwch Croesfan Harlech yn uniongyrchol at y Cynghorydd Owen.

**TRAFNIDIAETH CYMRU**

Croesawyd Gail Jones, Trafnidiaeth Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno diweddariad ar weithgareddau Trafnidiaeth Cymru.

Amlygwyd bod y gwaith o osod diffibrilwyr achub bywyd yng ngorsafoedd rheilffordd Trafnidiaeth Cymru wedi ei gwblhau a bod rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gydag ysgolion wedi ei drefnu.

Sylwadau a materion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Gyda'r rheilffordd wedi cau, y bysus cludo plant i'r coleg ym Mhwllheli yn cyrraedd yn hwyr
- Siomedig nad yw llythyrau / e-byst yn cael eu cydnabod gan swyddogion Trafnidiaeth Cymru – hyn yn gwneud gwaith ymateb i gwynion / sylwadau etholwyr yn anodd
- Cwynion bod gyrwyr y bysus sydd wedi cymryd lle'r trenau yn anghwrtais gyda theithwyr
- Cwynion bod y bysus yn pasio teithwyr heb stopio
- Amseroedd y bws T2 wedi eu haddasu ac nid ydynt bellach yn cyd-fynd gydag amseroedd y trenau. Nid yw'r Bws T2 bellach yn stopio yng ngorsaf Rheilffordd Porthmadog.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a gweld ymateb Network Rail a Trafnidiaeth Cymru i ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Lifogydd a Newid yr Hinsawdd (gan ystyried ardal Pwllheli yn benodol oherwydd bod rhannau o'r arfordir yn fregus ac ystyriaeth pryderon tymor hir), nododd y swyddogion y byddent yn holi eu sefydliadau ac yn ymateb yn uniongyrchol i'r Cynghorodd Richard Glyn Roberts

**HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig yn bresennol i gyflwyno adroddiad. Amlygwyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Yr Arolygydd Karl Anderson ac er bod swyddog arall wedi ei apwyntio, gadawodd ar ôl 4 wythnos. Maent bellach yn y broses o hyfforddi swyddog arall. Amlygwyd siom nad oedd cynrychiolydd o'r Heddlu yn bresennol.

**Diolchwyd am y diweddariadau**

## 8. DYFODOL CYNHADLEDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

Derbyniwyd cynnig gan Pwyllgor Cyswllt Rheilffyrdd Amwythig Aberystwyth (SARLC) yn argymell trefniant bod Pwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn ymuno gyda SARLC a sefydlu un grŵp o dan ymbarél Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru. Yng nghofnodion y Pwyllgor SARLC a gynhaliwyd 04/11/22, nodwyd bod y mater wedi ei drafod mewn manylder gydag adroddiad yn cynnwys y rhesymeg a'r argymhelliad yn llawn - cynigwyd yr argymhelliad gan Cyng Trevor Roberts ac eiliwyd gan Angus Eikhoff - roedd y bleidlais yn unfrydol o blaid y cynnig.

Sylwadau a materion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth:
- Gweld pwrpas dros ymuno fel modd o osgoi colli allan ar drafodaethau
- Derbyn parhau ar wahân ond pryder ynglŷn a galw swyddogion i ddau gyfarfod
- Bod Pwyllgor y Cambrian yn trafod materion lleol – buasai hyn yn cael ei golli mewn fforwm fwy
- Pwyllgor y Cambrian yn gweithio yn dda - yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn gyda Swyddogion Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru yn mynychu bob tro
- Cynrychiolaeth o'r Cambrian mewn cyfarfodydd SARLC – derbyn gwybodaeth briodol
- Nad oedd Trafnidiaeth Cymru wedi datgan cefnogaeth i uno'r ddau bwyllgor

Cynigiwyd ac eiliwyd cadw at y trefniadau presennol gan sicrhau cyswllt agos gyda SARLC

## 9. YMATEB I GWESTIYNAU FFURFIOL

**Cyngor Tref Abermaw**

Cwestiwn:
“Bydd y trenau newydd yn lleihau capasiti a nifer y toiledau. Dywedodd Trafnidiaeth Cymru wrthym i ddechrau y byddem yn cael trenau 3 cherbyd a fyddai’n cynyddu capasiti. Ymddengys erbyn hyn mai dim ond 2 gerbyd fydd ar y trenau newydd gyda chapasiti llai ar lein sydd eisoes yn brysur iawn ac yn orlawn yn y prif dymor. A all Trafnidiaeth Cymru gadarnhau mai 3 cherbyd fydd ar y trenau newydd?”

Ateb:
Bydd Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio 3 cherbyd yn ôl yr angen. Nododd GJ nad oedd wedi cael gwybod am unrhyw beth gwahanol, ond wedi anfon e-bost i wirio hyn.

Cwestiwn:
Nid yw'r drysau mynediad o'r swyddfa docynnau a'r lle aros i'r platfform yn agor yn awtomatig mwyach. Adroddwyd am hyn 3 blynedd yn ôl a sawl gwaith ers hynny ac nid oes dim wedi'i wneud i'w drwsio. Mae hyn yn gwneud mynediad i'r platfform yn anodd oherwydd yn y gaeaf nid yw'n bosibl gadael y drysau ar agor. Mae'n gwneud i aros yn yr ardal dan do yn amhosibl - gwell gan lawer o ddefnyddwyr hŷn y rheilffordd eistedd dan do wrth aros i'r trên gyrraedd. Os yw'r drysau ar agor yn barhaol mae'r man aros a'r swyddfa docynnau yn mynd yn oer iawn, ac ar ddiwrnodau gwyntog mae'r holl wybodaeth yn chwythu o gwmpas Allwch chi roi gwybod i ni pryd fydd y drysau'n cael eu trwsio?

Ateb:
Cais wedi ei wneud am archwiliad cynnal a chadw i atgyweirio’r drws ond os na ellid ei drwsio bydd rhaid cael drws newydd.

A fydd biniau newydd ar y platfform (tua'r Gogledd) yn cael eu newid? Mae'r biniau ar y platfform tua'r De yn fach ac mae'r un ger y brif fynedfa wedi'i symud. Oes modd edrych ar fwy o finiau?

Sylw wedi ei dderbyn

**Cyngor Cymuned Llanbedr**

Cwestiwn:
Deallwn bydd Gorsaf Talwrn Bach yn cael ei uwchraddio yn y gwanwyn, be yn union fydd y gwelliannau yma.?

Cais am fanylion / syniadau o’r hyn sydd ei angen mewn perthynas ag uwchraddio'r orsaf

Cwestiwn
Pryd fydd y trenau newydd ar waith?

Ateb
Bydd y trenau newydd ar waith yn 2023

Cwestiwn
A oes yna unrhyw adborth am waith y gwirfoddolwyr sydd wedi mabwysiadu'r orsaf yma yn Llanbedr? Mae sawl archwiliad wedi ei gynnal hyd yma.

Ateb:
Derbyniwyd diweddariad gan Rheilffyrdd Cymunedol

Bod mabwysiadwyr yr orsaf yn ymwybodol bod cyllid ar gael i osod cyfarwyddiadau o waith celf yn yr orsaf. Ar hyn o bryd mae cyllideb i argraffu unrhyw ddyluniad ac os gellid darparu'r gwaith celf ynghyd â manylion y cyflenwr, gall yr anfoneb gael ei thalu. Ategwyd bod rheolwr yr orsaf wedi cytuno i adfywio'r lloches bresennol gyda chefnogaeth ei dîm yn y gwanwyn.

Bydd cynhadledd gwirfoddolwyr y Cambrian yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2023 (dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau).

Cyswllt: Sian.jones@tfw.rail ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau ynghylch mabwysiadu gorsaf.

**Cynghorydd (Tref) Trevor Roberts**

Cwestiwn:
Pam na chafodd amserlenni gwasanaeth y rheilffordd eu postio ar y gorsafoedd yn ystod cyfnod cau Traphont Abermaw ac a fydd hyn yn cael ei gywiro pan fydd y draphont ar gau eto ymhen wythnos?

Ateb:
Adroddwyd bod y posteri i fyny yn ystod y cyfnod cau diwethaf. Wedi trafod gyda'r rheolwr llinell, Dave Crunkhorn, dywed bod y posteri sydd ar y gorsafoedd ar hyn o bryd yn cael eu newid ar y 19eg o Dachwedd i adlewyrchu'r newidiadau ac amseroedd newydd y trenau.

Cwestiwn:
A all Network Rail hysbysu'r cyfarfod pan fydd y math newydd o oleuadau rhybuddio bach yn cael eu gosod ar lwybr troed a elwir yn lleol fel 'Waynes Footpath' sydd i'r gogledd o'r Abermaw. Nodwyd bod y golau croesi wedi'i osod ar 2 groesfan 1 filltir ymhellach i'r gogledd, ond bod croesfan Wayne yn cludo mwy o gerddwyr na'r ddwy groesfan arall gan mai dyma'r unig groesfan sydd yn croesi o'r brif stad o dai (ardal Heol y Llan) i ganol y dref ac i'r feddygfa. Mae trigolion hŷn sy'n byw mewn tai gwarchod ar ochr ddwyreiniol y groesfan, angen defnyddio'r groesfan i'r promenâd a'r traeth.

Ateb:
Cynhaliwyd yr asesiad risg diwethaf ym mis Mai 2021 ac yn seiliedig ar y sgôr risg gyfredol, bydd yr un nesaf yn cael ei gynnal ym mis Awst 2023. Nodwyd bod pob croesffordd yn risg, ond ategwyd y gellid cyfeirio'r pryder i'r swyddogion perthnasol a cheisio cynnal asesiad risg cyn Awst 2023 gan wahodd y Cynghorodd Trevor Roberts i'r ymweliad safle.

Cwestiwn:
Mae trigolion yn pryderu am gyflwr yr arglawdd rheilffordd i'r gogledd o dwnnel rheilffordd yn Abermaw lle mae'n ymddangos bod coed a llwyni yn tyfu'n wyllt ar ddwy ochr y trac. A yw Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn y maes hwn?

Ateb:
Gyda'r rheilffordd wedi cau, bydd modd ymweld â'r safle yn yr wythnosau nesaf.

Diolchwyd am y cwestiynau

Tynnwyd sylw at Ymgynghoriad Rheilffordd Gorllewin Canolbarth Lloegr. Er bod llawer o fuddsoddiadau arfaethedig cadarnhaol yn cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad, ymddengys bod bwriad, o 2040,  i beidio â chaniatáu i wasanaethau Trafnidiaeth Cymru i fynd tu hwnt i Birmingham New Street (gorsaf reilffordd ganolog Birmingham). Nid yw hyn yn ystyriaeth dderbyniol oherwydd ar hyn o bryd mae gan Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru wasanaeth i 'Birmingham International' lle mae'r Ganolfan Arddangos Genedlaethol; y Maes Awyr, a chyswllt gyda Llundain (yr HS2). Mae'r cysylltiadau hyn yn bwysig i dwristiaeth a busnesau, ac ni fydd unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth presennol yn cael eu cefnogi. Anogwyd Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad

https://wmre.org.uk/our-strategies/west-midlands-rail-investment-strategy/consultation-on-the-west-midlands-rail-investment-strategy/

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:00

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**31 Mawrth 2023**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE**
**31 March 2023**

| **Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES** | |
|---|---|
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL**<br><br>Hoffai Cyngor Cymuned Llangelynnin ofyn y cwestiwn i Network Rail ac unrhyw parti perthnasol arall ynghylch pryd y gall gwaith ddechrau ar Allt Friog Hill A493 parthed y wal ffin /rhwystr damwain, gan fod hyn wedi'i amserlennu i gychwyn yn Chwarter 1 o 2023, (rydym bron ar ddiwedd y cyfnod erbyn hyn) Mae rheolaeth traffig wedi bod ar waith ers cryn amser bellach a dim arwydd o unrhyw waith wedi ei wneud<br><br>Llangelynnin Community Council would like to ask the question to both Network Rail and any other relevant party as to when work may commence on Friog Hill A493 relating to the boundary wall/crash barrier as this had been scheduled to commence in Quarter 1 of 2023 which we are nearly at the end of. Traffic control has been in place now for some considerable time without any works having been undertaken | |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE** | |
| **Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD** | |
| **Oddiwrth / From: Clerc Llangelynnin** | |
| **I'w dychwelyd at**<br>**To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel, Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **09-03-2023** |

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN / CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE**

**31 03 2023**

| |
|---|
| **Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**<br><br>**Hoffwn wybod os a phryd fydd Gorsaf Dren Llanbedr yn cael ei adnewyddu.**<br>**Diolchwn bod yr orsaf wedi cael ei phaentio yn ddiweddar.**<br><br>**We would like to know if and when Llanbedr Train Station will be renovated.**<br>**We are grateful that the station has been painted recently.**<br><br>**Rydym hefyd fel Cyngor wedi gwneud cais am fin baw cwn ger yr orsaf – gan Gyngor Gwynedd. Pe baem yn llwyddiannus gyda hwn, a fydd yna siawns I gael bin sbwriel ar yr orsaf?**<br><br>**We as a Council have also applied for a dog litter bin near the station - from Gwynedd Council. If we were successful with this, will there be a chance to get a litter bin on the station?**<br><br>**Hefyd bod nifer o'r Cynghorwyr sydd wedi mabwysiadu yr Orsaf yn Llanbedr yn awyddus I gael atebion yn ol parthed eu sylwadau maent yn eu hanfon bob pythefnos.**<br>**A fydd hyn yn debyg o ddigwydd?**<br>**Adnabyddir yr hen Orsaf yma fel Halt Talwrn Bach yn y gorffennol. Beth yw posibilrwydd ad ennill yr hen new yma?**<br><br>**Also a number of Councilors who have adopted the Station in Llanbedr are keen to get answers according to their comments they send them every two weeks.**<br>**Is this likely to happen?**<br>**The old Station was known as Halt Talwrn Bach in the past. What is the possibility of winning the old name back?** |
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL**<br><br>**Ymddengys bod y canllaw pren sydd yma wedi pydru.**<br>**The wooden handrail appears to have rotted.**<br><br>**Hefyd wedi derbyn cwyn bod yr arwydd rhaglen trenau yn rhy uchel I bob lei ddarllen**<br>**Also received a complaint that the train program sign is too high for everyone to read** |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE** |
| **Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD** |
| **Oddiwrth / From: Morfudd Lloyd Clerc Cyngor Cymuned Llanbedr** |

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd at**<br>**To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **09-03-2023** |

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**31 Mawrth 2023**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE**
**31 March 2023**

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**<br><br>**Pam bod angen talu ffi gweinyddu o £10 y tocyn i gael ad-daliad hyd yn oed pan mae trenau wedi eu canslo gan y gwasanaeth ee oherwydd y tywydd?**<br><br>***Why is it necessary to pay an administration fee of £10 per ticket to get a refund even when there are trains have been canceled by the service eg because of the weather?*** | |
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL**<br><br>**Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn medru delio gyda'r materion isod yng Nghriccieth.**<br><br>**1. Does dim ffens rhwng Teras Cambrian a'r rheilffordd, dim ond ychydig o wifren.**<br>**2. Mae'r ffens haearn pigfain ger y groesfan reilffordd wedi torri ac yn cael ei gweld fel perygl.**<br>**3. Mae sbwriel rhwng y rheiliau ger yr orsaf ac yn gwneud i'r orsaf edrych yn hyll.**<br><br>***Would be grateful if you could deal with the issues below in Criccieth.***<br>***1. There is no fence between Cambrian Terrace and the railway, just a bit of wire.***<br>***2. The spiked iron fence near the level crossing is broken and seen as danger***<br>***3. There is rubbish between the rails near the station and makes the station look ugly.*** | |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE** | |
| **Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD** | |
| **Oddiwrth / From: Cyngor Tref Criccieth Town Council** | |
| **I'w dychwelyd at**<br>**To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel, Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **09-03-2023** |

RX. 15/02/23

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**31 Mawrth 2023**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE**
**31 March 2023**

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES** | |
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL** | |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE**<br>Is it possible for the committee to meet at its usual venue in Porthmadog on a date when train services are expected to be running normally in Wales & the Borders? | |
| **Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD** | |
| **Oddiwrth / From:**<br>R. Goodhew Shrewsbury to Aberystwyth Rail Passengers Association | |
| **I'w dychwelyd at**<br>**To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel, Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **09-~~02~~ 3-2023** |